**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 04-01(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

# CYMORTH Â STRAEN YNG NGHEFN GWLAD CYMRU

## Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y mesurau y mae Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â straen yng nghefn gwlad Cymru.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Mae pedair elfen naill ai ar waith neu'n cael eu rhoi ar waith:

(i) llinell gymorth ar straen sy'n neilltuol i'r pwnc ac yn gwbl ar wahân yn seiliedig ar y llinell gymorth lwyddiannus *Community Advice and Listening Line* (CALL);

(ii) Cyswllt Ffermio;

(iii) menter JIGSAW; a

(iv) Gweithgor Straen yng Nghefn Gwlad i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar weithgareddau'r sector gwirfoddol ar lawr gwlad.

## Cefndir

3. Yn gynnar y llynedd, comisiynodd Gweinidogion y Cynulliad dros Iechyd ac Amaethyddiaeth astudiaeth ar y cyd i ystyried y ffordd orau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau straen yng nghefn gwlad Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad, a luniwyd gan yr Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig a'r Sefydliad Iechyd Gwledig, ym mis Mai 2000 ac mae swyddogion wedi bod yn datblygu cynigion i weithredu'r argymhellion a wnaeth. Nodir yr argymhellion yn Adran 7 yr adroddiad (tudalen 34), ac mae copi ohono ynghlwm â'r papur hwn.

4. Mae pob un o'r elfennau a ddynodir ym mharagraff 2 uchod yn mynd i'r afael ag un neu ragor o'r argymhellion a, lle bo hynny'n bosibl, yn adeiladu ar fentrau sydd naill ai ar gael yn barod neu sy'n cael eu datblygu.

**Ystyriaeth**

5. Gallai fod o fudd ystyried pob un o’r elfennau ar wahân.

6. **Llinell Gymorth CALL -** Mewn cynhadledd aml-ddisgyblaethol ym mis Ionawr 2000, cymeradwywyd argymhelliad y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu llinell gymorth iechyd meddwl i Gymru gyfan. Cyflawnwyd hyn trwy ehangu gwasanaethau CALL, o dan oruchwyliaeth grp aml-ddisgyblaethol, ac mae CALL bellach yn cynnwys y Gogledd, Dyfed Powys a Gwent (gan ddefnyddio ardaloedd Awdurdodau Iechyd). Mae’r cynlluniau i’r gwasanaeth gynnwys Cymru gyfan erbyn 1 Mai 2001 ar waith ers tro byd, mae’n debyg y llwyddir i lynu at yr amserlen. Mae NHS Direct yn cefnogi’r broses ehangu yn llawn.

7. Argymhellodd adroddiad AffChW sefydlu llinell gymorth yn neilltuol ar gyfer straen yng nghefn gwlad a chynigiodd ddau ddewis, CALL neu Cyswllt Busnes. Am nifer o resymau, daeth swyddogion i’r casgliad mai CALL oedd yr un mwyaf addas i’r gwaith ac mae Gweinidogion y Cynulliad dros Iechyd a Materion Gwledig wedi cymeradwyo hyn.

8. Er mai’r un bobl fydd yn gweithredu’r gwasanaeth, cytunwyd y bydd gan y llinell gymorth straen yng nghefn gwlad enw gwahanol i CALL a rhif "0800" gwahanol. Y rheswm am hyn yw sicrhau na ddaw unrhyw stigma trwy ei gysylltu â materion iechyd meddwl a fyddai’n peri i ffermwyr ac eraill mewn ardaloedd gwledig beidio â defnyddio’r gwasanaeth. Mae gwaith wrth law i ddarparu llinellau ffôn a hyfforddiant arbennig i wirfoddolwyr CALL a disgwylir y bydd y gwasanaeth ar gael dros y misoedd nesaf.

9. Y bwriad oedd cyhoeddi’r cynlluniau hyn yn ffurfiol ar 1 Mawrth mewn Cynhadledd swyddfeydd CALL yn Wrecsam, gan wahodd pawb oedd â diddordeb a gofyn i’r rhai a fynychodd roi eu sylwadau a’u cyngor a chynnig enw i’r gwasanaeth. Yn anffodus, oherwydd Clwy Traed a’r Genau, bu’n rhaid gohirio’r Gynhadledd ac mae angen cytuno ar ddyddiad newydd eto.

10. **Cyswllt Ffermio -** Mae’r Pwyllgor yn gyfarwydd â’r gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu o dan Gyswllt Ffermio. Mae’r gwaith o ddatblygu’r gwahanol wasanaethau a’u rhoi ar waith yn symud yn ei flaen yn dda, a disgwyliwn allu lansio’r elfen Cynllun Datblygu Busnes Fferm ym mis Ebrill 2001, â’r grantiau cyfalaf ar gael o fis Mai 2001. Bydd Cyswllt Ffermio yn darparu cymorth a chefnogaeth sylweddol i ffermwyr a’u teuluoedd, gan eu helpu i fynd i’r afael ag achosion ymarferol straen sy’n gysylltiedig â’r busnes, a sicrhau ffynonellau incwm eraill. Hyfforddir yr Hwyluswyr a’r ymgynghorwyr sy’n darparu gwasanaethau mewn ymwybyddiaeth o straen a bwriedir i’r Hwyluswyr allu rhoi unigolion mewn cysylltiad â chyrff cymorth eraill yn eu hardal.

11. **JIGSAW -** Fel y gwyr y Pwyllgor, prif darged gwaith JIGSAW ar hyn o bryd yw gwella’r ffordd y mae Is-adran Rheoli CAP, sy’n rhan o Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad, yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys lleihau biwrocratiaeth, symleiddio ffurflenni, gwella cyfleusterau TG a gwneud y broses o dalu

cymorthdaliadau'n fwy effeithlon. Ar ben hynny, mae gwaith eisoes yn yr arfaeth i sefydlu trefniadau cydweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yn Swyddfeydd Rhanbarthol yr Adran Amaethyddiaeth i helpu i ganoli a symleiddio gwybodaeth y mae ar ffermwyr, a'r gymuned wledig ehangach, angen cael gafael arni.

12. **Gweithgor Straen yng Nghefn Gwlad** - mae nifer o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad AFfChW wedi'u targedu at gyrff gwirfoddol sy'n rhoi cymorth ar lawr gwlad i'r rhai sy'n dioddef o straen. Er mwyn manteisio ar yr arbenigedd sydd ar gael o fewn y grwp hwnnw ac annog meddiant ar y broses, cynigir sefydlu Gweithgor Straen yng Nghefn Gwlad gan gynnwys tua 8 cynrychiolydd allweddol o'r cyrff sy'n ymwneud â straen yng Nghymru ar hyn o bryd. Y bwriad oedd gofyn i'r rhai a fynychodd y Gynhadledd ar 1 Mawrth enwebu Cadeirydd a chynrychiolwyr ac ystyried y cylch gwaith canlynol:

- Datblygu ymgyrch i godi proffil straen yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys

    - deunydd hyrwyddo ar gyfer y llinell gymorth
    - hyfforddiant cyhoeddus/proffesiynol ar adnabod straen a chymryd
    - camau priodol
    - codi ymwybyddiaeth am grwpiau cymorth

- Darparu dull cydlynol o geisio am arian ar gyfer gwahanol fentrau
- Datblygu'r mentrau cymorth at straen presennol a newydd
- Darparu canllawiau ar arfer da, gofynion hyfforddiant, rôl, a datrys problemau, ar gyfer sefydlu a gweithredu grwpiau cymorth at straen.
- Sefydlu system o gofnodi a gwerthuso mentrau i asesu datblygiadau'r dyfodol
- Sicrhau bod system gefnogi ar gael i'r rhai sy'n darparu cymorth straen ledled Cymru
- Cryfhau cysylltiadau lleol, cenedlaethol a thros y ffin rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Datblygu rôl y gweithgor straen

13. Rhoddir yr eitemau hyn gerbron y Gynhadledd pan gaiff ei haildrefnu.

14. Cynigir bod y grwp hwn yn gweithio mewn modd ymgynghorol gyda CALL wrth sefydlu llinell gymorth ar straen i Gymru Gyfan, a chyda Cyswllt Ffermio a JIGSAW wrth ddatblygu eu gwasanaethau a'u hyfforddwyr. I helpu'r Grwp, cynigir hefyd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu arian tuag at gael ysgrifenyddiaeth ac y bydd swyddogion o Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad, AFfChW ac Iechyd Cyhoeddus a Chymunedol yn eistedd ar y Grwp fel ymgynghorwyr. Bydd y Grwp hefyd yn gallu gwahodd unigolion eraill i ddarparu cyngor arbenigol yn ôl y galw.

15. Trwy i'r pedair elfen hon weithio gyda'i gilydd, a chyda chyrff eraill fel y grwpiau Rural Outreach, Canolfannau Cynghori, Grwpiau Leader ac Awdurdodau Lleol, teimlir y bydd rhwydwaith cymorth cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i ffermwyr, eu teuluoedd a'r gymuned wledig gyfan.

**Cyswllt**
Mrs Terri Thomas, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio, ffôn 5471.

---

**Atodiad 1**

**EXTRACT FROM FRCA RURAL STRESS REPORT: RECOMMENDATIONS**

- Development of a comprehensive rural support database;
- A national contact number to access rural support and other information databases;
- Increase the number of local support initiatives;
- Develop existing stress support groups;
- Raise the profile of rural stress;
- Access funding on behalf of the various stress support groups as part of a national package;
- Provide guidance on best practice, roles and problems;
- Develop a national recording system;
- Develop and evaluation system for initiatives;
- Develop national and local links between statutory and voluntary sectors;
- Encourage access to debriefing support for all stress support services or professional organisations to relieve stress burdens in support workers;
- National Assembly for Wales and other Government bodies to consider:
    - Raise awareness of stress to all staff in contact with rural communities and provide guidance on how to deal with it;
    - Ensure trained staff are available to assist individuals suffering from stress;
    - Reduce bureaucracy and simplify paperwork, providing assistance in interpreting and explaining requirements;
    - Providing debriefing support for field officers within the Government and agencies;
    - Adopt a more customer friendly approach to working practices;
- Research and develop statistical records of those suffering from stress, in order to better understand and assess the situation / need;
- Formalise the provision of specific business advice to those suffering from stress.